Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 26 Medi 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Merfyn Jones, H. Huws,

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	A. Mummery(Cadeirydd) yn gadael y cyfarfod am resymau personol. Cytunwyd i J. Roberts yr Is-gadeirydd Gadeirio'r cyfarfod yn ei absenoldeb.		
	A. Williams, Meirion Jones, E. Parry, D. Jones,		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Gorffennaf 2017**		
3.1	G. C. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	J. Roberts yn nodi bod dim diweddariad gyda sefyllfa llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd. H. Huws yn nodi ei bod hi yn un o lywodraethwyr ond fel aelod o'r gymuned yn hytrach na'r Cyngor Bro		
4.2	G. C. Jones yn nodi bod Cyfarfod Unllais i'w gynnal yn ystod Mis Hydref		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 25 Gorffennaf 2017**		
5.1	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	**A. M**	
6.2	Llwybr beicio - Adran Priffyrdd Cyngor Sir wedi cadarnhau ei bod am weithredu a'r rheswm am yr oediad oedd eu bod yn credu bod y weithred i fod wedi gwneud gan y Contractwr. CSYM i ddiweddaru'r Cyngor Bro pan fydd wedi gwneud	**D. Owen**	**31/10/17**
6.3	Grant memorials fund am waith ar y cloc - A. Jones yn nodi bod contractwr wedi bod ar y safle ac am yrru dyfynbris i'r Cyngor Bro am y gwaith.	**A. Jones**	**31/10/17**
6.4	Tagfeydd traffig Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Adran Priffyrdd yn cadarnhau fo bwriad i ymgynghori ar y broblem parcio ar yr A5 ar hyd yr Ynys, ond ar hyn o bryd does dim dyddiad wedi penodi ar gyfer cychwyn yr ymgynghoriad hwn		
6.5	Gwelliannau Pentrefol - A. Mummery wedi cadarnhau ynghynt fod swyddog o grŵp Ardal Amlwch am ddod i gyfarfod ac aelodau Cyngor Bro Llanfairpwll ar 10/10/17 i drafod sefydliad eu grŵp nhw.	**D. Owen**	**10/10/17**
6.6	Grantiau - Merfyn Jones wedi llenwi cais grant gan Horizon ac am yrru ymlaen am sylwadau pellach gan Aelodau'r Cyngor Bro. S. Edwards yn nodi ei fod am edrych mewn i Grant First Hydro ar gyfer y Neuadd Goffa, gan fod ffenest ceisio newydd yn agor yn fuan.	**Mervyn Jones a S. Edwards**	
6.7	Llanast yn y Gors - Steven wedi cael pris o £35 y bin i roi yn y Gors. Clerc wedi holi Biffa, ac maent wedi cadarnhau ar hyn o bryd ni allant roi gwasanaeth casglu sbwriel tu allan i'w contract gyda'r Cyngor Sir oherwydd diffyg adnoddau, ond wedi nodi mi wneith rhoi fwy o sylw i'r Gors fel rhan o'i oblygiadau glanhau strydoedd gyda'r Cyngor Sir		
6.8	Clwb Snwcer - Nodwyd bod y Clwb Snwcer am gynnal eu Cyfarfod Blynyddol yn ystod Mis Hydref a'u bod am hysbysu A. Mummery o'r dyddiad a rhoi gwahoddiad iddo a Meirion Jones.	**D. Owen**	**31/10/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 22/08/17**		
7.1	A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
8.1	Trefniadau Nadolig - A. Jones, G. C. Jones ac G. Parry am gyfarfod ar y safle i drafod		

	trefniadau yn ystod Mis Hydref		
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Neuadd Goffa 12/09/17**		
9.1	A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
10.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
10.1	Safle we gosodiadau'r Neuadd Goffa - A. Jones yn nodi ei fod wedi trafod gyda'r swyddog a sefydlodd gwefan y Cyngor Bro ac mae wedi paratoi drafft. Cytunwyd mai Anwen Le Cras fel gofalwr bydd yn ei redeg os byddai un yn cael ei sefydlu.		
10.2	Cais grant Loteri am laptops newydd i'r Neuadd Goffa - Cytunwyd i'r Cyngor Bro glustnodi £100 (tuag at logi'r Neuadd) i helpu gyda sefydlu dosbarthiadau dysgu cyfrifiaduron i redeg fel treial tan Fis Mawrth.		
10.3	Cyrhaeddodd swyddogion o SP Energy Networks a rhoi cyflwyniad byr ar gyfer gwaith gwelliannu i'r ceblau o gwmpas Llanfairpwll i gychwyn pen rhyw 12 mis. Y prif bwynt fydd rhaid rhoi cebl newydd o dan Ffordd Penmynydd o Lon Dyfnia i'r A5 ac wedyn at Bont Rhonwy. **Nodwyd bod Meirion Jones wedi cyrraedd y Cyfarfod**		
11.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 12/09/17**		
11.1	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
12.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
12.1	A. Jones yn nodi bod y CPD Iau wedi ymholi am ddefnyddio'r MUGA dros y gaeaf i ymarfer **Nodwyd bod A. Mummery wedi dychwelyd i'r cyfarfod**		
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	31C69L/ECON/TR - Cais llawn ar gyfer addasu allanol ynghyd a ail-leoli drws mynedfa yn Sant Tysilio, Llanfairpwll - H. Huws yn cynnig sylwad fod arwyddion ar y safle yn cael i wneud yn ddwy iaith		
13.2	31C444 -Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 6 Lon y Wennol, Llanfairpwll - Dim sylwad cyn belled â bod dim effaith ar driolion cyfagos		
13.3	14.3 31C433A - Cais llawn ar gyfer codi annedd sydd yn cynnwys ardal dec ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau r dir rhwng 20/21 Collen Wen, Llanfairpwll - Dim sylw		
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	Cylchgrawn Clerks & Council's Direct - Derbyn y wybodaeth		
14.2	Cyngor Sir - Canfas Blynyddol 2017 - Clerc i'w osod ar yr hysbysfwrdd		
14.3	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
14.4	Cyngor Sir - Cysgodfa bws ger Gwesty Carreg Bran - Clerc i holi CSYM pa sylwadau neu gwynion y maent wedi derbyn. Cyngor Bro heb dderbyn cwyn.	**D. Owen**	**31/10/17**
14.5	Cylchgrawn Dan Do Môn - Derbyn y wybodaeth		
14.6	Unllais Cymru - Cyfarfod 05 Hydref 2017 - H. Huws a G. C. Jones i fynychu		
14.7	E-bost Polisi Cynllunio - Cais cynllunio Hen Lon Dyfnia (darpariaeth offer chwarae yn lleol) - Cytunwyd i ofyn i'r datblygwr ddod i gyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae nesaf ar 07 Tachwedd 2017	**D. Owen**	
14.8	Swyddfa Bost - Ymgynghoriad ar ddyfodol y swyddfa yn Llanfairpwll - Cytunwyd i roi ymateb bod parcio yn brin ar y safle a bydd yn cynyddu traffig gwmpas yr Ysgol ble mae parcio yn brin	**D. Owen**	
15.0	**Materion Brys**		
15.1	Pencampwr Iaith - H. Huws yn nodi bod angen gwybodaeth bellach gan CSYM	**D. Owen**	
15.2	Giât y Gors - Meirion Jones yn nodi ei fod dal ddim yn saff. Cytunwyd i ofyn i Andre rhoi sylw cyn gynted â phosib	**D. Owen**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 31 Hydref 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad